# CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU:
# PWYLLGOR MATERION EWROPEAIDD AC ALLANOL

# ADRODDIAD 2001-2002

## CYNNWYS


Rhagair gan y Cadeirydd ... 2

1. Cefndir ... 4

2. Crynodeb o Weithgareddau'r Pwyllgor ...

   a) Perthynas y Cynulliad â sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd ... 5

   b) Trefniadau cyswllt y Cynulliad â UKRep a Llywodraeth y DU ... 6

   c) Gweithdrefnau'r Cynulliad ar gyfer archwilio materion Ewropeaidd ... 7

   d) Perthynas y Cynulliad â chenhedloedd y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd ... 9

   e) Monitro dylanwad gyffredinol a chanlyniadau polisïau a ddilynwyd gan sefydliadau'r Undeb Ewriopeaidd i Gymru ... 9

   f) Sicrhau bod cyswllt digonol ag Aelodau Seneddd Ewrop sy'n cynrychioli Cymru a chynrychiolwyr Cymru ar Bwyllgor y Rhanbarthau ... 10

   g) Asesu arwyddocad deddfwriaeth Ewropeaidd arfaethedig sy'n effeithio ar Gymru ac sy'n rhan o gylch gwaith mwy nag un pwyllgor pwnc ... 10

3. Gwahoddedigion sefydlog yn cymryd rhan ... 11

4. Rhagolwg ... 11

Atodiad A - Rheol Sefydlog - Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol ... 13

Atodiad B - Aelodau'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol ... 15

Atodiad C - Cyfarfodydd ac Agendâu'r Pwyllgor ... 16

Atodiad D - Gwahoddedigion Sefydlog a Fynychodd Gyfarfodydd y Pwyllgor… 18

**RHAGAIR Y CADEIRYDD**

Bu'r flwyddyn ddiwethaf yn un brysur i'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol. Fis Mai diwethaf cwblhaodd adolygiad hir o'i swyddogaeth a'i raglen waith. O ganlyniad gwelwyd dull newydd o weithio a rhai newidiadau i'r rheolau sefydlog.

Un o'r blaenoriaethau a nodwyd oedd gwella cydlyniad materion Ewropeaidd rhwng y pwyllgorau pwnc a sicrhau bod prosesau effeithiol ar waith iddynt gael eu hystyried gan adrannau polisi. O ganlyniad, cynhelir cyfarfodydd blynyddol gyda chadeirydd pob pwyllgor pwnc a sefydlwyd system o adroddwyr ar gyfer pob pwyllgor pwnc er bod angen datblygu hyn. Mae'r pwyllgor hefyd yn sicrhau bod amser ar gael ym mhob cyfarfod ar gyfer adroddiadau cryno gan aelodau Senedd Ewrop, Pwyllgor y Rhanbarthau, y Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol a Chynrychiolaeth y Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru ac yn sicrhau y cynhelir o leiaf un cyfarfod y flwyddyn ym Mrwsel fel y gall Aelodau Senedd Ewrop (MEP) fynychu. Bydd y pwyllgor yn parhau i adolygu'r trefniadau hyn.

Mabwysiadodd y pwyllgor ddull cynhwysfawr i'w ystyriaeth o Bapur Gwyn ar Lywodraethu a allai ddarparu model ar gyfer y dyfodol. Neilltuodd y pwyllgor amser ac ymdrech sylweddol i'r broses hon. Cyfarfu â phobl allweddol o'r Comisiwn Ewropeaidd, sicrhaodd bod y Papur Gwyn yn cael ei ddosbarthu'n eang a bod pob sector o gymdeithas yng Nghymru yn cael cyfle i'w ystyried. Gwahoddodd y pwyllgor gyfraniadau gan gyrff y sector cyhoeddus a phreifat yng Nghymru hefyd. Roddwn i'n falch bod y pwyllgor hwnnw yn gallu cymeradwyo'r ymateb a gyflwynwyd gennyf ar ran y Cynulliad.

Cymerodd y Pwyllgor ddiddordeb mawr yng nghysylltiad Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol â gwledydd ymgeisio'r Undeb Ewropeaidd. Roeddwn yn falch i gael croesawu Jan Olbrycht, Marsial Foifodiaeth Silesia, i gyfarfod y pwyllgor ym mis Mai. Mae llawer o elfennau tebyg rhwng Cymru a Silesia a gobeithiaf y gallwn adeiladu ar y berthynas er lles y ddwy wlad.

Dros y flwyddyn sydd i ddod bydd angen i'r pwyllgor gyfrannu at y ddadl bwysig ar Ddyfodol Ewrop. Bydd Peter Hain AS, y Gweinidog Ewrop a chynrychiolydd Llywodraeth y DU ar y confensiwn yn mynychu cyfarfod y pwyllgor ym mis Gorffennaf. Bydd hwn yn gyfle i'r pwyllgor archwilio ffyrdd y gall ddylanwadu ar y ddadl.

Diwygiwyd y rheolau sefydlog ym mis Hydref 2001 i ymestyn cylch gwaith y pwyllgor i genhedloedd y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd. Dyma faes y bydd y pwyllgor yn dymuno'i ddatblygu dros y flwyddyn nesaf.

Bydd swyddogaeth bwysig gan y pwyllgor hefyd yn y blynyddoedd i ddod i ddatblygu'r meddwl ar ddyfodol tymor canolog a hir Cymru yn Ewrop. Bydd newidiadau strwythurol megis ehangu yn effeithio ar strwythur yr Undeb Ewropeaidd a chynrychiolaeth berthnasol Cymru a'r Deyrnas Unedig. Bydd hefyd yn symud y canolbwynt Ewropeaidd ymhellach o Gymru a newid siâp y cronfeydd strwythurol a mynediad Cymru iddynt yn y dyfodol. Mae angen dadl ac ystyriaeth gyhoeddus yn awr er mwyn paratoi ar gyfer y newidiadau hyn yn y blynyddoedd i ddod fel ein bod yn

gallu penderfynu lle mae buddiannau Cymru i'w gweld ac ystyried sut i wneud y gorau o'r cyfleoedd y maent yn eu cynnig. Mae'r Pwyllgor mewn sefyllfa unigryw i fynd ymlaen â'r ddadl hon a chynorthwyo i lywio Cymru tuag at ddyfodol llewyrchus fel rhanbarth Ewropeaidd.

**Rhodri Morgan AC**
**Cadeirydd, Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol**
**Mehefin 2002**

## CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

## ADRODDIAD PWYLLGOR MATERION EWROPEAIDD AC ALLANOL 2001-2002

### 1. CEFNDIR

1.1. Amlinellir cylch gwaith y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol yn Rheol Sefydlog 15 (Atodiad A). Mae rhestr o'i aelodau yn Atodiad B. Cyflwynir yr adroddiad hwn dan Reol Sefydlog 15.5 a'i fwriad yw rhoi gwybodaeth i ddadl flynyddol y Cynulliad am faterion cysylltiedig â'r Undeb Ewropeaidd dan Reol Sefydlog 6.5.

1.2. Yn gyffredinol, pwrpas y Pwyllgor ar Faterion Ewropeaidd ac Allanol yw sicrhau bod y Cynulliad Cenedlaethol yn mabwysiadu dull strategol a chydlynol mewn perthynas ag Ewrop. Yn ystod y flwyddyn, ymestynnwyd cylch gwaith y pwyllgor i barhau i adolygu perthynas y Cynulliad â chenhedloedd y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd. Bwriedir i'r pwyllgor sicrhau y ceir dull cydlynol i gyfrifoldebau'r Cynulliad mewn perthynas â'r Undeb Ewropeaidd ym mhob un o'i bwyllgorau pwnc. Fodd bynnag, nid ei swyddogaeth yw cymryd lle'r pwyllgorau pwnc ond eu cefnogi a sicrhau nad ydynt yn gweithredu'n ynysig.

1.3. Er mwyn hwyluso gallu aelodau'r Cynulliad a chynrychiolwyr Cymru yn y gwahanol sefydliadau Ewropeaidd i gyfnewid gwybodaeth yn rhydd ac yn barhaus, mae'r Rheolau Sefydlog yn caniatáu i Aelodau Cymru o Senedd Ewrop a chynrychiolwyr Cymru ar Bwyllgor y Rhanbarthau i gymryd rhan yng nghyfarfodydd y pwyllgor. Mae'r pwyllgor wedi ymestyn y gwahoddiad hwn i gynrychiolwyr Cymru ar y Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol (ECOSOC), Canolfan Ewropeaidd Cymru a Chynrychiolaeth y Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru.

### 2. CRYNODEB O WEITHGAREDDAU'R PWYLLGOR

2.1. Mae'n ofynnol yn ôl Rheolau Sefydlog i'r pwyllgor adolygu'r canlynol yn barhaus:

(i) perthynas y Cynulliad â sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd, a'i ddulliau o roi gwybodaeth a chynghori'r sefydliadau hynny ynghylch anghenion Cymru;

(ii) trefniadau'r Cynulliad i gysylltu â UKRep, a gydag adrannau llywodraeth y Deyrnas Unedig ar faterion Ewropeaidd;

(iii) dulliau a gweithdrefnau'r Cynulliad ar gyfer ystyried dogfennau, materion a chwestiynau sy'n codi o sefydliadau Ewropeaidd, gan dalu sylw arbennig i'r angen am gysylltu ag Aelodau Seneddol sy'n gyfrifol am archwilio materion Ewropeaidd sy'n berthnasol iawn i Gymru;

(iv) perthynas y Cynulliad â chenhedloedd y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd.

2.2. Mae angen i'r pwyllgor gyflawni'r canlynol hefyd:

(i) monitro effaith a chanlyniadau cyffredinol polisïau a dilynir gan sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd ar Gymru, a

(ii) sicrhau bod cysylltiad digonol ag Aelodau Senedd Ewrop sy'n cynrychioli Cymru a chynrychiolwyr Cymru ar Bwyllgor y Rhanbarthau.

2.3. Gall y pwyllgor asesu a rhoi adroddiad, lle bo angen, ar arwyddocâd deddfwriaeth Ewropeaidd arfaethedig sy'n effeithio ar Gymru sy'n dod o fewn cylch gwaith mwy nag un pwyllgor pwnc.

2.4. Rhoddir ystyriaeth i weithgaredd y pwyllgor ymhob un o'r meysydd hyn isod.

**a) Perthynas y Cynulliad â sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd**

2.5. Mae'r pwyllgor wedi parhau i adolygu perthynas y Cynulliad â sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd trwy i gynrychiolwyr y sefydliadau hynny gymryd rhan yn nhrafodion y pwyllgor a thrwy roi ystyriaeth fanwl i faterion penodol wrth iddynt godi. Mae'r pwyllgor wedi adolygu perthynas Llywodraeth Cynulliad Cymru â sefydliadau Ewropeaidd trwy gael adroddiadau gan Brif Weinidog Cymru ar ddigwyddiadau a thrafodaeth bord gron wedi hynny ar weithgaredd y Cynulliad.

<u>Pwyllgor y Rhanbarthau a sefydliadau eraill</u>

2.6. Mae gan y Cynulliad Cenedlaethol un aelod llawn o Bwyllgor y Rhanbarthau sydd hefyd yn aelod o'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol, Rosemary Butler AC, ac un cynrychiolydd dirprwyol, Janet Davies AC. Mae gan y Cynulliad Cenedlaethol hefyd un aelod llawn ar Gyngres Awdurdodau Lleol a Rhanbarthol Ewrop, Gwenda Thomas AC. Yn dilyn argymhelliad y pwyllgor, daeth y cynulliad yn aelod o Gynhadledd Rhanbarthau Ymylol ac Arfordirol a mynychodd Xavier Gizard, yr Ysgrifennydd Cyffredinol gyfarfod y pwyllgor ym mis Rhagfyr 2001. Roedd y Cynulliad Cenedlaethol hefyd yn aelod o grŵp Rhanbarthau Ewrop gyda Phŵer Deddfwriaethol, sydd wedi bod yn pwyso am fwy o gydnabyddiaeth i'r rhanbarthau o fewn gweithrediadau'r Undeb Ewropeaidd.

<u>Blaenoriaethau Llywyddol</u>

2.7. Ym mis Mehefin 2001, clywodd y pwyllgor am flaenoriaethau Llywyddiaeth Gwlad Belg yr Undeb Ewropeaidd gan Ei Ardderchowgrwydd Lode Willems, Llysgennad Gwlad Belg. Roedd hwn yn fforwm gwerthfawr ar gyfer hysbysu'r pwyllgor fel yr oedd Gwlad Belg yn gobeithio mynd â'r Undeb Ewropeaidd yn ei flaen yn ystod eu Llywyddiaeth ac roedd o ddiddordeb arbennig i Gymru oherwydd natur unigryw cyfansoddiad ffederal Gwlad Belg sy'n darparu cydbwysedd rhwng cyfrifoldebau llywodraeth ganolog a rhanbarthol. Mae'r pwyllgor wedi trefnu

cyflwyniad tebyg ym mis Gorffennaf 2002 gan gynrychiolydd Llysgenhadaeth Denmarc.

Rhwydwaith Tele-Ranbarthau

2.8. Rhoddodd Andrew Davies AC, Llywydd Rhwydwaith Tele-Ranbarthau adroddiad i'r pwyllgor ar waith y rhwydwaith ym mis Hydref 2001. Mae'r rhwydwaith yn dosbarthu gwybodaeth arfer gorau, yn sefydlu cysylltiadau rhwng rhanbarthau ynglŷn â defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ac yn darparu llais i'r rhanbarthau wrth gysylltu â'r Comisiwn Ewropeaidd. Ystyriodd y pwyllgor y byddai datblygu system o adroddwyr rhwng y rhwydwaith, Pwyllgor y Rhanbarthau, a Chanolfan Ewropeaidd Cymru yn ddull positif o rannu arbenigedd rhwng sefydliadau.

Cyfarfod Brwsel

2.9. Cynhaliodd y pwyllgor gyfarfod ym Mrwsel ar 5 Rhagfyr 2001 fel y gallai Aelodau Cymru o Senedd Ewrop fynychu. Mynychwyd y cyfarfod gan Jerome Vignon, Llywydd Tîm Llywodraethu'r Comisiwn Ewropeaidd a Xavier Gizard, Ysgrifennydd Cyffredinol Cynhadledd y Rhanbarthau Ymylol ac Arfordirol hefyd. Fel rhan o gyfres o gyfarfodydd a gynhaliwyd ar y diwrnod hwnnw hefyd, cyfarfu'r pwyllgor â'r Comisiynydd Michel Barnier a Dirprwy Bennaeth y Cabinet Polisi Rhanbarthol, Ronnie Hall a chynrychiolwyr y Comisiwn Ewropeaidd yn cynnwys, Corrado Pirzio-Biroli, Pennaeth Cabinet Amaethyddiaeth, Datblygu Gwledig a Physgodfeydd ac Adriaan Van Der Meer, o'r Gyfarwyddiaeth Gyffredinol Ehangu.

Secondiadau i'r Undeb Ewropeaidd

2.10. Lansiodd y Cynulliad y 'Cynllun Secondiadau i Sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd' ym mis Hydref 2001, sydd â'r nod o gynyddu nifer y bobl o Gymru sy'n cael eu secondio i sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd. Bydd y cynllun yn ddull defnyddiol o ehangu'r grŵp o bobl o Gymru sy'n cael eu secondio i Ewrop ac mae'n cael ei ddatblygu fel rhan o Strategaeth Ewropeaidd y Cynulliad i sicrhau mwy o ddylanwad yn Ewrop.

**b) Trefniadau cyswllt y Cynulliad ag UKRep a Llywodraeth y DU**

2.11. Parhawyd i hysbysu'r Pwyllgor am drefniadau cyswllt y Cynulliad ag UKRep a Llywodraeth y DU trwy adroddiadau gan Brif Weinidog Cymru a Phennaeth Swyddfa Brwsel, sydd ag achrediad UKRep.

Cyngor y Gweinidogion

2.12. Croesawodd y pwyllgor gyfranogaeth Gweinidogion y Cynulliad wrth gynrychioli Cymru a'r DU yng nghyfarfodydd Cyngor y Gweinidogion yr Undeb Ewropeaidd. Bu'r gyfranogaeth hon o gymorth i godi proffil Cymru yn Ewrop a chynyddu dealltwriaeth y Cynulliad o weithrediad cyfarfodydd y Cyngor. Mynychodd y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes gyfarfodydd y Cyngor Ewropeaidd ar Addysg ac Ieuenctid ym mis Mai a mis Tachwedd 2001 fel rhan o ddirprwyaeth weinidogol y DU. Ym mis Mehefin 2001 mynychodd y Gweinidog dros Ddiwylliant,

Chwaraeon a'r Iaith Gymraeg gyfarfod o'r Cyngor Diwylliant Ewropeaidd i drafod datblygiadau polisi'r Gymuned Ewropeaidd ac i ystyried pa mor berthnasol oeddent i'r Cynulliad a Chymru. Mynychodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig gyfarfodydd y Cyngor Amaethyddiaeth ym Mrwsel fel rhan o ddirprwyaeth weinidogol y DU ym mis Gorffennaf, mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2001. Mynychodd y Gweinidog dros yr Amgylchedd gyfarfod Cyngor yr Amgylchedd fel rhan o ddirprwyaeth y DU ym mis Mawrth 2002.

UKRep a Llywodraeth y DU

2.13. Mae'r berthynas yn adeiladol ac mae ymwybyddiaeth UKRep o anghenion y Cynulliad ar gynnydd. Rhoddwyd sêl ar y berthynas gan gyfres o uwch ymweliadau â Chaerdydd gan Lysgennad Prydain i'r Undeb Ewropeaidd a Phennaeth cynrychiolaeth y DU, Nigel Sheinwald, ac uwch aelodau staff UKRep, Giles Paxman, Antony Vinall ac yn fwyaf diweddar, Shan Morgan, sydd â chyfrifoldeb am lawer o'r meysydd polisi a ddatganolwyd i Gymru. Cyfarfu'r pwyllgor ag Ei Ardderchowgrwydd Gavin Hewitt, Llysgennad Prydain i Wlad Belg yn dilyn cyfarfod y pwyllgor ym mis Rhagfyr 2001.

Cadeiryddion Pwyllgorau Ewropeaidd llywodraethau'r DU

2.14. Cynrychiolodd Prif Weinidog Cymru'r pwyllgor yng nghyfarfodydd Cadeiryddion Pwyllgorau Ewropeaidd Seneddau'r Deyrnas Unedig ar 29 Hydref 2002 ym Mrwsel ac yn Llundain ar 22 Ebrill 2002. Darparodd y cyfarfodydd hyn gyfle gwerthfawr i rannu profiadau wrth ddelio â materion Ewropeaidd a hwyluso cydweithrediad parhaus rhwng y pwyllgorau. Cynhaliodd y Cynulliad Cenedlaethol gyfarfod ym Mrwsel er mwyn galluogi Cadeiryddion i gyfarfod â swyddogion UKRep ac ymweld â swyddfeydd yr adrannau gweinyddol a ddatganolwyd. Cyfarfu'r Cadeiryddion â chynrychiolwyr Tŷ'r Cyffredin (ac aelod dirprwyol yr Arglwyddi) ar Gonfensiwn Dyfodol Ewrop yn y cyfarfod yn Llundain.

**c) Gweithdrefnau'r Cynulliad ar gyfer archwilio materion Ewropeaidd**

2.15. Nododd y pwyllgor fod y wybodaeth a roddwyd iddo gan Brif Weinidog Cymru, Pennaeth Swyddfa Brwsel, Aelodau Cymru o Senedd Ewrop, Cynrychiolaeth y Comisiwn yng Nghymru, Canolfan Ewropeaidd Cymru a chynrychiolwyr Pwyllgor y Rhanbarthau ac ECOSOC yn werthfawr er mwyn sicrhau ei fod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am gynigion y dyfodol. Yn yr un modd, roedd archwiliad y pwyllgor ei hun o raglen waith flynyddol y Comisiwn a blaenoriaethau Llywyddol o gymorth i sicrhau bod y pwyllgor yn effro i flaenoriaethau strategol. Cynhaliodd y Pwyllgor archwiliad o raglen waith y Comisiwn ym mis Chwefror 2002 er mwyn amlygu materion o bwysigrwydd i Gymru i'w hystyried gan y pwyllgorau a'r cyrff priodol.

Pwyllgorau Pwnc

2.16. Mae'r pwyllgor wedi gweithio i wella'r gwaith o gyfathrebu ar draws y Cynulliad trwy wahodd cadeiryddion pwyllgorau pwnc i fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol ar sail rota. Mynychodd Cadeirydd y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig gyfarfod ym mis Hydref 2001 a

Chadeirydd y Pwyllgor Diwylliant gyfarfod ym mis Mawrth 2002. Bydd y pwyllgor yn parhau â'r rhaglen hon a cheisio cyfarfod â chadeirydd pob pwyllgor pwnc yn flynyddol.

Papur Gwyn ar Lywodraethu

2.17. Neilltuodd y pwyllgor gyfnod sylweddol o amser yn paratoi ymateb i Bapur Gwyn y Comisiwn Ewropeaidd ar Lywodraethu yn ystod y cyfnod y rhoddir adroddiad arno. Trafododd y pwyllgor ymateb y Cynulliad mewn pedwar cyfarfod a chafwyd cyflwyniadau gan Jerome Vignon, Arweinydd tîm Llywodraethu'r Comisiwn, a Xavier Gizard, Ysgrifennydd Cyffredinol Cynhadledd y Rhanbarthau Ymylol ac Arfordirol ar y Papur Gwyn. Gwahoddodd y pwyllgor gyfraniadau gan gyrff y sectorau cyhoeddus a phreifat yng Nghymru hefyd a mynychodd Jerome Vignon gyfarfod o'r Fforwm Ewropeaidd yn Llandudno i drafod y Papur Gwyn. Cyflwynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei hymateb terfynol ar ran y Cynulliad a oedd wedi'i gymeradwyo gan y pwyllgor. Hefyd llofnododd Prif Weinidog y Cynulliad ddatganiad ar y cyd ar lywodraethu gyda naw rhanbarth arall yr Undeb Ewropeaidd a chroesawyd hyn gan y pwyllgor fel cam positif ymlaen.

Confensiwn Dyfodol Ewrop

2.18. Yn dilyn ymlaen o'r Papur Gwyn ar Lywodraethu, dechreuodd y pwyllgor edrych ar baramedrau Confensiwn Dyfodol Ewrop. Bydd y pwyllgor yn rhoi ystyriaeth bellach i swyddogaeth haen ranbarthol y llywodraeth yn nyfodol Ewrop a gall geisio dylanwadu'r ddadl trwy gyflwyno cyfraniadau i aelodau'r Confensiwn.

Archwilio Deddfwriaeth Ewrop

2.19 Parhaodd aelodau i geisio sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng archwiliad manwl o'r Rhaglen Ddeddfwriaethol Ewropeaidd a fyddai'n dasg fawr a'r pegwn arall lle gall Aelodau a Phwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol gael eu dal mewn anwybodaeth am ddeddfwriaeth newydd. Cyfeiriodd aelodau at y papur EUR-02-01 (t3b) "Strategaeth Lobio 2001" gan Ganolfan Ewropeaidd Cymru, a oedd wedi'i gyflwyno ym mis Ebrill 2001. Roedd hwn wedi rhoi disgrifiad byr o 29 o eitemau blaenoriaeth a oedd yn berthnasol i waith y Cynulliad Cenedlaethol ac wedi'i groesawu'n gynnes ar y pryd. Gobeithid y byddai dogfen debyg ar gael ar gyfer 2002: roedd aelodau o'r farn bod y rhestr fyrrach o 7 eitem yn EUR-01-02(t4) yn annigonol i fodloni'r angen.

**d) Perthynas y Cynulliad â chenhedloedd y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd**

2.20 Ymestynnwyd cylch gwaith y pwyllgor i gynnwys cenedlaethau y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd ym mis Hydref 2001. Ystyriodd y pwyllgor agenda ryngwladol Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystod cyfarfod ym mis Mawrth 2002 a chytunodd y byddai'n bwysig i'r Cynulliad fonitro pa mor effeithiol oedd y cysylltiadau oedd yn cael eu datblygu gyda gwledydd y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd.

**e) Monitro effaith a chanlyniadau cyffredinol polisïau a dilynir gan sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd i Gymru**

Rhaglenni Traws-Ewropeaidd

2.21 Ystyriodd y pwyllgor ddiweddariad o raglenni cydweithio Traws-Ewropeaidd. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cymeradwyo'r tair rhaglen sy'n effeithio ar Gymru ond roedd y rhaglenni ar wahanol gamau o gael eu gweithredu. Cynrychiolodd John Griffiths, AC, yr adrannau gweinyddol a ddatganolwyd ar Bwyllgor Monitro Rhaglenni ar gyfer Rhaglen Gogledd Orllewin Ewrop.

Arian Sengl Ewrop

2.22 Mae'r pwyllgor wedi ystyried y goblygiadau sy'n codi i Gymru o gyflwyno arian sengl mewn deuddeg o bymtheg o aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd. Derbyniodd y pwyllgor gyflwyniadau gan y Tasglu Ewro yng Nghymru, Ffederasiwn Busnesau Bach yng Nghymru a CBI Cymru. Ychydig o dystiolaeth a glywyd gan y pwyllgor bod busnesau yng Nghymru yn dod ar draws problemau mewn cysylltiad â chyflwyno arian sengl er y byddai dylanwad yr Ewro yn dod yn gliriach ar ôl y prif dymor twristiaid. Roedd rhai aelodau o'r farn ei bod yn anodd trafod effaith yr Ewro ar Gymru heb gyfeirio mewn unrhyw ffordd at fanteision ac anfanteision aelodaeth y DU yn y dyfodol o'r Ewro ar Gymru ac economi Cymru. Heb drafodaeth o'r fath roedd perygl na fyddai anghenion penodol Cymru yn cael digon o sylw.

Ehangu a Gefeillio

2.23 Mae'r pwyllgor wedi cymryd diddordeb wrth fonitro'r gwaith a gyflawnwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar brosiectau ehangu a gefeillio. Mae'r pwyllgor yn derbyn adroddiadau rheolaidd gan y gweithgor ehangu a sefydlwyd i gynghori'r pwyllgor ar ymateb Cymru i'r cyfleoedd a gyflwynwyd trwy ehangu'r Undeb Ewropeaidd. Prif Weinidog Cymru sy'n cadeirio'r grŵp, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bedair plaid wleidyddol y Cynulliad, ac o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Mae'r pwyllgor hefyd wedi cymryd diddordeb mewn cyfleoedd gefeillio a all godi o ganlyniad i ehangu'r Undeb Ewropeaidd. Mae Prif Weinidog Cymru yn diweddaru'r pwyllgor yn rheolaidd ar waith y Cynulliad i greu cyswllt â gwladwriaethau a rhanbarthau ychwanegol a chafodd y pwyllgor gyflwyniad gan Farsial (sy'n cyfateb i Brif Weinidog Cymru) Foifodiaeth Silesia yn ei gyfarfod ym mis Mai 2002.

Datblygu Cynaliadwy

2.24 Mae'r pwyllgor wedi croesawu'r cynnydd a wnaed gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar rwydwaith datblygu cynaliadwy pan-Ewropeaidd arfaethedig ac wedi cydnabod arwyddocâd cysylltu â rhanbarthau eraill ar lefel Ewropeaidd. Mae'r pwyllgor yn edrych ymlaen at wybodaeth ddiweddaraf bellach ar y rhwydwaith datblygu cynaliadwy sy'n cael ei ddatblygu.

Cydlynu

2.25 Mae'r pwyllgor wedi derbyn adroddiadau cynnydd rheolaidd ar gydlynu economaidd a chymdeithasol yr Undeb Ewropeaidd gydol y cyfnod y rhoddir adroddiad arno. Hysbyswyd y pwyllgor ym mis Chwefror 2002 mai'r adroddiad cynnydd diweddaraf oedd y cyntaf o ddau gam dros dro cyn cyhoeddi'r trydydd adroddiad ar gydlynu yn hwyr yn 2003 neu'n gynnar yn 2004. Mae'r pwyllgor yn edrych ymlaen at roi ystyriaeth bellach i'r agwedd bwysig hon ar eu gwaith yn ystod y flwyddyn i ddod.

**f) Sicrhau bod cyswllt digonol gydag Aelodau Senedd Ewrop sy'n cynrychioli Cymru a chynrychiolwyr Cymru ar Bwyllgor y Rhanbarthau**

2.26 Mae'r pwyllgor yn darparu cyfle i wella cysylltiad rhwng Aelodau Senedd Ewrop (MEP) sy'n cynrychioli Cymru a chynrychiolwyr Cymru ar Bwyllgor y Rhanbarthau trwy ddod â hwy at ei gilydd yn ei gyfarfodydd. Er mwyn mynd i'r afael â phroblemau ymarferol, cynhaliodd y pwyllgor gyfarfod llawn ym Mrwsel i wella'r cyfathrebu gyda MEP ym mis Rhagfyr 2001. Mae'r pwyllgor yn bwriadu ymweld â Brwsel yn flynyddol er mwyn parhau â'r drafodaeth werthfawr hon. Mae trefniadau wedi'u gwneud hefyd ar gyfer cyfarfod yn ystod wythnos etholaeth yr MEP ym mis Chwefror 2002 er mwyn ei gwneud yn haws iddynt fynychu.

**g) Asesu arwyddocâd deddfwriaeth Ewropeaidd arfaethedig sy'n effeithio ar Gymru sy'n rhan o gylch gwaith mwy nag un pwyllgor pwnc**

2.27 Ystyriodd y pwyllgor y ddeddfwriaeth Ewropeaidd arfaethedig ar Rhyddfrydoli'r Gwasanaethau Post ac ar Gyfarwyddeb ar Wybodaeth ac Ymgynghoriad Gweithwyr Cyflogedig. Nododd yr aelodau a oedd yn bresennol gefnogaeth i weithredu'r Gyfarwyddeb ar Wybodaeth ac Ymgynghoriad Gweithwyr Cyflogedig oherwydd y byddai'n annog arfer busnes da wrth drin gweithwyr cyflogedig.Rhoddwyd blaenoriaeth i gyhoeddiadau gan Ofcom a Consignia ar ystyriaeth y pwyllgor i ryddfrydoli'r farchnad gwasanaethau post.

## 3. GWAHODDEDIGION SEFYDLOG YN CYMRYD RHAN

3.1 Dan reol sefydlog 15.4, gall Aelodau Senedd Ewrop sy'n cynrychioli Cymru a chynrychiolwyr Cymru ar Bwyllgor y Rhanbarthau fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Materion Ewropeaid ac Allanol. Mae'r pwyllgor wedi ymestyn y gwahoddiad hwn i gynrychiolwyr Cymru ar y Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol (ECOSOC), Canolfan Ewropeaidd Cymru a Chynrychiolaeth y Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru. Mae rhestr o gyfarfodydd a fynychwyd gan wahoddedigion sefydlog yn atodiad C.

## 4. RHAGOLWG

4.1 Bydd y pwyllgor yn cymryd cryn ddiddordeb yn y ddadl ar Ddyfodol Ewrop. Mae'r pwyllgor o'r farn fod gan haen ranbarthol y llywodraeth swyddogaeth

sylweddol i'w chwarae a bydd yn ystyried ymhellach sut y gellir datblygu hyn. Nid oes unrhyw ddull ffurfiol ar gyfer cyfrannu at y Confensiwn, ond gall y pwyllgor geisio dylanwadu ar y ddadl trwy gyflwyno cyfraniadau i aelodau'r Confensiwn. Mae cynrychiolwyr Tŷ'r Cyffredin ar y Confensiwn, Gisela Stuart a David Heathcoat-Amory, wedi nodi eu bod yn barod i gynorthwyo'r pwyllgor. Gall y Cynulliad hefyd geisio dylanwadu ar y ddadl trwy Bwyllgor y Rhanbarthau. Bydd yn bwysig i'r pwyllgor a'r Cynulliad ddefnyddio pob llwybr posibl i ddylanwadu ar lywodraeth y DU i sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu bodloni.

4.2 Blaenoriaeth barhaus i'r Pwyllgor yw gwella cydlyniad materion Ewropeaidd rhwng pwyllgorau pwnc ac adrannau polisi. Mae'n bwysig bod prosesau digonol o fewn y Cynulliad i adynnu sylw at faterion Ewropeaidd sydd o ddiddordeb i Gymru mewn pryd i'r Cynulliad gael cyfrannu pan fydd polisi'n cael ei ddatblygu. Gall Cymru wedyn fanteisio i'r eithaf ar y cyfleodd y mae Ewrop yn eu cynnig.

4.3 Mae gwella cyfathrebu gyda phwyllgorau pwnc yn rhan bwysig o'r gwaith hwn. Bydd y pwyllgor yn cyfarfod â chadeirydd pob pwyllgor pwnc yn flynyddol i drafod materion sydd o bryder i'r naill a'r llall. Sefydlwyd system o adroddwyr, sydd angen ei datblygu, fel y gall y pwyllgor gael y wybodaeth ddiweddaraf am faterion Ewropeaidd o fewn pob pwyllgor pwnc. Dylai adroddwyr hysbysu pwyllgorau pwnc am faterion Ewropeaidd sy'n dod i'r amlwg a'u cyd-destun strategol ehangach hefyd. Mae'r pwyllgor wedi gwneud cais i bwyllgorau pwnc adrodd yn benodol ar faterion Ewropeaidd yn eu hadroddiadau cynnydd.

4.4 Bydd y pwyllgor yn parhau i dderbyn adroddiad gan Brif Weinidog Cymru ar bob un o raglenni gwaith y Comisiwn Ewropeaidd sy'n amlinellu materion o arwyddocâd posibl o fewn portffolio bob Gweinidog y Cynulliad. Bydd hyn yn sicrhau bob adrannau polisi yn ymwybodol o waith Ewropeaidd perthnasol sydd ar y gorwel ac yn amlygu materion pwyllgor sydd angen eu codi efallai gyda'r pwyllgor pwnc sy'n gyfrifol amdanynt.

4.5 Mae'r pwyllgor wedi cymryd diddordeb mawr yn y gwaith y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymgymryd ag ef ynglŷn â phrosiectau ehangu a gefeillio. Wrth i ehangu agosáu bydd y pwyllgor am sicrhau bod Cymru yn gwneud yn gorau o'r cyfleoedd sydd ar gael.

4.6 Bydd y pwyllgor yn cynnal ei swyddogaeth fel canolbwynt y Cynulliad er mwyn i gynrychiolwyr Ewropeaidd Cymru allu trafod materion o bwysigrwydd yn gyhoeddus a hysbysu'r Cynulliad am ddatblygiadau diweddar. I'r perwyl hwn, mae'r pwyllgor wedi ymgymryd â sicrhau bod o leiaf un cyfarfod y flwyddyn yn cael ei gynnal ar adeg ac mewn lle sy'n gyfleus i Aelodau Cymru o Senedd Ewrop oherwydd bod MEP wedi teimlo'n rhwystredig am nad oeddent yn gallu mynychu am fod y pwyllgor yn cyfarfod ar amserau oedd yn gwrthdaro â dyletswyddau seneddol Ewropeaidd.

4.7 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi rhoi 12 mis o rybudd ei bod yn dod â'i haelodaeth o Ganolfan Ewropeaidd Cymru i ben ac wedi datgan ei bwriad i gryfhau ei phresenoldeb uniongyrchol ym Mrwsel. Y farn gyffredin yw bod angen i bawb sydd â diddordeb perthnasol yng Nghymru i gytuno ar y trefniadau i gynnal presenoldeb

Cymreig cryf ym Mrwsel ac mae trafodaethau'n parhau gyda rhanddeiliaid ar y sail hon. Roedd aelodau'n teimlo gan fod y WEC wedi bod yn ganolog i'r berthynas rhwng y Cynulliad Cenedlaethol a'r Undeb Ewropeaidd – ac felly'n ganolog i waith y Pwyllgor – y dylai'r Pwyllgor gael y cyfle i drafod dyfodol WEC yn llawn cyn gwneud unrhyw benderfyniadau na ellid eu newid.

4.8 Mae'r pwyllgor wedi nodi hefyd, yn y tymor hirach, bod angen i'r Cynulliad fynd i'r afael â materion dyfodol y cronfeydd strwythurol ar ôl 2006, adolygu'r polisi amaethyddol cyffredinol a datblygu cynaliadwy. Mae swyddogaeth strategol bwysig gan y pwyllgor a bydd yn parhau i fonitro datblygiadau yn y meysydd hyn a sicrhau bod y Cynulliad yn cymryd camau gweithredu priodol ac amserol.

## ATODIAD A

## RHEOL SEFYDLOG 15 – PWYLLGOR MATERION EWROPEAIDD AC ALLANOL

### Teitl a Chylch Gorchwyl

15.1 Rhaid cael Pwyllgor Materion Ewropeaidd a fydd yn adolygu'r canlynol yn barhaus

(i) perthynas y Cynulliad gyda sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd a'i ddulliau i roi gwybodaeth a chynghori'r sefydliadau hynny am anghenion Cymru;

(ii) trefniadau'r Cynulliad i gysylltu â UKREP, a gydag adrannau llywodraeth y Deyrnas Unedig ar faterion Ewropeaidd;

(iii) dulliau a gweithdrefnau'r Cynulliad ar gyfer ystyried dogfennau, materion a chwestiynau sy'n codi o sefydliadau Ewropeaidd, gan dalu sylw arbennig i'r angen am gysylltu gydag Aelodau Seneddol sy'n gyfrifol am archwilio materion Ewropeaidd sy'n berthnasol iawn i Gymru.

(iv) perthynas y Cynulliad â chenhedloedd y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd.

15.2. Bydd y Pwyllgor yn monitro effaith a chanlyniadau cyffredinol polisïau a ddilynir gan sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd ar Gymru, ac yn sicrhau bod cysylltiad digonol gydag Aelodau Senedd Ewrop sy'n cynrychioli Cymru a chynrychiolwyr Cymru ar Bwyllgor y Rhanbarthau

15.3. Bydd y Pwyllgor yn osgoi ailadrodd gwaith y pwyllgorau pwnc, ond gall dynnu sylw'r pwyllgor pwnc perthnasol at rai materion penodol a, gyda chytundeb y pwyllgor pwnc perthnasol, gall ystyried unrhyw fater o fewn paragraffau 15.1 neu 15.2 sydd, heblaw am hynny, yn rhan o gylch gwaith y pwyllgor pwnc hwnnw. Gall y Pwyllgor asesu, a lle bo angen, roi adroddiad ar arwyddocâd deddfwriaeth Ewropeaidd arfaethedig sy'n effeithio ar Gymru sy'n dod o fewn cylch gwaith mwy nag un pwyllgor pwnc.

### Aelodau

15.4 Bydd y Cynulliad yn ethol Ysgrifennydd Cynulliad i gadeirio'r Pwyllgor ynghŷd ag Aelodau etholedig eraill cyn belled ag y mae'n ymarferol i adlewyrchu cydbwysedd grwpiau gwleidyddol y Cynulliad a chan ystyried dymuniad pob pwyllgor pwnc sy'n cael eu cynrychioli ar y Pwyllgor. Gall Aelodau Senedd Ewrop sy'n cynrychioli Cymru, a chynrychiolwyr Cymru ar Bwyllgor y Rhanbarthau, fynychu a, gyda chaniatâd y cadeirydd, siarad yng nghyfarfodydd y Pwyllgor pan fo'r rheiny yn gyhoeddus, ond ni allant bleidleisio. Gall Aelodau'r Cynulliad sydd â diddordeb etholaethol neu ranbarthol penodol i'w dilyn mewn perthynas â gwaith y Pwyllgor ofyn am ganiatâd y cadeirydd cyn y cyfarfod i wneud sylwadau i'r Pwyllgor yn y cyfarfod hwnnw, ond ni allant bleidleisio.

Gall aelodau hefyd ysgrifennu at y cadeirydd yn gofyn i’r sylwadau ar unrhyw agwedd ar waith y Pwyllgor gael eu gosod ar gyfer eu hystyried gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf, a gall y cadeirydd drefnu gosodiad o’r fath.

**Adroddiadau**

15.5 Bydd y Pwyllgor yn rhoi adroddiad i’r Cynulliad o bryd i’w gilydd.

## ATODIAD B

## AELODAU PWYLLGOR MATERION EWROPEAIDD AC ALLANOL

Aelodau’r Pwyllgor ym Mehefin 2002 yw:

| | | |
|---|---|---|
| Rhodri Morgan (Cadeirydd) | Llafur | Gorllewin Caerdydd |
| Nicholas Bourne | Ceidwadwyr | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Rosemary Butler | Llafur | Gorllewin Casnewydd |
| Christine Chapman | Llafur | Cwm Cynon |
| Mike German | Democratiaid Rhyddfrydol | Dwyrain De Cymru |
| John Griffiths | Llafur | Dwyrain Casnewydd |
| Ieuan Wyn Jones | Plaid Cymru | Ynys Môn |
| Tom Middlehurst | Llafur | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Jonathan Morgan | Ceidwadwyr | Canol De Cymru |
| Rhodri Glyn Thomas | Plaid Cymru | Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |
| Phil Williams | Plaid Cymru | Dwyrain De Cymru |

Ymunodd Tom Middlehurst â’r pwyllgor ym mis Tachwedd 2001 yn dilyn ymddiswyddiad Val Feld oherwydd salwch.

**ATODIAD C**

**CYFARFODYDD AC AGENDÂU'R PWYLLGOR**

28 Mehefin 2001

  - Llywyddiaeth Gwlad Belg yr Undeb Ewropeaidd
  - Adroddiad y Cadeirydd
- Gweithgor Ehangu
- Cyfarfod ym Mrwsel
- Cynrychiolaeth swyddogol Cymru ar fforymau Ewropeaidd
- Rhaglen Efeillio
- Adroddiadau Gwahoddedigion Sefydlog

17 Hydref 2001

- Adroddiad y Cadeirydd
- Rhwydwaith Tele-Ranbarthau
- Trafodaeth gyda Chadeirydd Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig
- Adroddiad ar gyfarfod cyntaf y Gweithgor Ehangu
- Datblygu Cynaliadwy yn y Cyd-destun Ewropeaidd
- Cynhadledd Rhanbarthau Ymylol ac Arfordirol
- Cydlynu yng Nghyd-destun Ehangu
- Cyfarwyddeb Arfaethedig ar Wybodaeth ac Ymgynghoriad Gweithwyr Cyflogedig
- Ymchwiliad i ddemocratiaeth ac atebolrwydd yn yr UE a swyddogaeth seneddau cenedlaethol
- Gweithdrefnau Trin ar gyfer y Papur Gwyn ar Lywodraethu
- Adroddiadau gan Wahoddedigion Sefydlog
- Cyfarfod Brwsel
- Papur i'w nodi – Cyfarwyddeb ar Weithfeydd Hylosgi Mawr

5 Rhagfyr 2001

- Adroddiad y Cadeirydd
- Trafodaethau gydag Aelodau Senedd Ewrop
- Cyflwyniadau llywodraethu - Jerome Vignon a Xavier Gizard

13 Chwefror 2002

  - Adroddiad y Cadeirydd
  - Papur Gwyn ar Lywodraethu
  - Rhaglen waith y Comisiwn Ewropeaidd - 2002
  - Diweddariad ar Adroddiad Cynnydd ar Gydlynu
  - Adroddiad ar ail gyfarfod y Gweithgor Ehangu
  - Adroddiadau gan Wahoddedigion Sefydlog
  - Rhyddfrydoli'r Gwasanaethau Post yn yr Undeb Ewropeaidd

20 Mawrth 2002

- Adroddiad y Cadeirydd
- Trafodaeth gyda Chadeirydd y Pwyllgor Diwylliant

- Papur Gwyn ar Lywodraethu
- Goblygiadau'r Ewro i Gymru
- Ymestyn cylch gwaith y pwyllgor
- Rhanbarthau Ewropeaidd sydd â Phwerau Deddfwriaethol
- Adroddiadau gan Wahoddedigion Sefydlog

8 Mai 2002
- Adroddiad y Cadeirydd
- Trafodaeth gyda'r Marsial Foifodiaeth Silesia
- Trafodaeth gydag Aelod o'r Pwyllgor Datblygu Economaidd
- Confensiwn Dyfodol Ewrop
- Arian Sengl Ewrop
- Rhaglenni Trawswladol Ewropeaidd
- Datblygu Cynaliadwy
- Adroddiad gan Wahoddedigion Sefydlog
- Papur i'w nodi - Polisi Strwythurol a Chydlyniad yr UE

**Atodiad D**

**GWAHODDEDIGION SEFYDLOG A FYNYCHODD GYFARFODYDD Y PWYLLGOR**

Mae rhestr o wahoddedigion sefydlog gyda dyddiad y cyfarfod a fynychwyd ganddynt isod.

**Aelodau Senedd Ewrop**

Jill Evans - 5 Rhagfyr 2001, 13 Chwefror 2002
Jonathan Evans - 5 Rhagfyr 2001
Glenys Kinnock - 5 Rhagfyr 2001, 13 Chwefror 2002,
Eluned Morgan - 28 Mehefin 2001
Eurig Wyn - 5 Rhagfyr 2001, 13 Chwefror 2002

**Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol**

Rose D'Sa - 5 Rhagfyr 2001
George Wright - 13 Chwefror 2002, 8 Mai 2002

**Pwyllgor y Rhanbarthau**

Janet Davies (o fis Mai 2002) - 8 Mai 2002
Brian Smith
Y Cynghorydd Jon Huish - 8 Mai 2002

**Cynrychiolaeth y Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru**

Catherine Eva - 13 Chwefror 2002, 8 Mai 2002

**Canolfan Ewropeaidd Cymru**

Jos Gallagher - 28 Mehefin 2001, 17 Hydref 2001, 5 Rhagfyr 2001, 13 Chwefror 2002, 8 Mai 2002